Miles Coverdale 1488–1569

Cyfieithydd y Beibl Saesneg ac esgob Caerwysg (Exeter)

Ganed Miles Coverdale yn Swydd Efrog ac ychydig a wyddom am ei ddyddiau cynnar. Fe'i hordeiniwyd yn offeiriad yn Norwich gan John Underwood, esgob Chalcedon. Aeth yn fynach Awstinaidd gan ymuno â'r brodyr yng Nghaergrawnt ac yno daeth o dan ddylanwad Robert Barnes a gredai mewn diwygio'r eglwys. Dechreuodd ymddiddori o ddifrif yn yr ysgrythurau ac ymrodd fwyfwy i ddysgu amdanynt. Gadawodd yr Awstiniaid a dechreuodd bregethu yn erbyn traws-sylweddiad, addoli delwau a chyffes. Roedd y rhain yn agweddau peryglus i'w mynegi yn yr oes honno. Tua diwedd 1528 ffodd dramor. Mae ansicrwydd beth oedd ei symudiadau rhwng 1528 a 1535. Ef yn gweithio ar ei ben ei hun yn Antwerp oedd y cyntaf i argraffu'r Beibl cyfan yn Saesneg. Nid ef oedd yn gyfrifol am y cyfieithu ond yn hytrach addasodd gyfieithiad William Tyndale o'r Testament Newydd a defnyddiodd weithiau nifer o gyfieithwyr wrth roi'r Hen Destament at ei gilydd.

Ei gamp oedd rhoi i genedl y Saeson y Beibl yn eu hiaith eu hunain am y tro cyntaf erioed. Y mae'n llyfr hardd gyda phrint clir a 150 o luniau bychain i gyd-fynd â'r testun. Y tu mewn i glawr yr argraffiad cyntaf y mae llun o'r Brenin Harri VIII yn dosbarthu Beiblau a'r geiriau 'faithfully translated out of Douche (Almaeneg) and Latin into English'. Gorffennwyd ei argraffu ar 4 Hydref 1535 ac fe'i hystyrir yn gamp eithriadol. Ymddangosodd ail argraffiad ym 1537 ac fe gafwyd caniatâd y Brenin Harri VIII i'w osod mewn eglwysi plwyf. Dychwelodd Coverdale i Loegr ym 1535 a chyhoeddodd y *Goostly Psalmes and Spirituall Songs Drawen out of the Holy Scripture*, cyfieithiad Saesneg o emynau Almaeneg. Erbyn 1539 yr oedd Coverdale yn byw yn Newbury ac yn cyflogi John Winchcombe Junior i fod yn gyswllt rhyngddo a Thomas Cromwell. Ond treuliodd y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn o'i fywyd yn Fflandrys a'r Almaen o dan nawdd y Palgrave. Gadawodd Loegr ym 1540 ac aeth i Strasbwrg lle y cafodd groeso mawr gan wraig John Calvin. Yn y cyfnod hwn derbyniodd radd DTh yn Tübingen a chyhoeddodd ragor o lyfrau fel *Confutation of that Treatise which one J. Standish Made.*

Dychwelodd i Loegr ar ôl marwolaeth y brenin ac fe bregethodd lawer iawn. Cafodd groeso gwresog yn y llys brenhinol a threuliodd lawer o amser yng nghastell Windsor. Pan aeth yr Arglwydd Russell i Swydd Dyfnaint a Chernyw er mwyn taweli gwrthryfel oedd wedi codi yno yn erbyn y Llyfr Gweddi newydd Saesneg, aeth Coverdale yno fel caplan iddo a phregethodd ar faes y gad wedi'r ymladd yn Clyst St Mary.

Penodwyd ef yn esgob Caerwysg ym 1551. Dywed Hooker, un o'i gyfoedion, ei fod yn ddyn gostyngedig a duwiol. Roedd yn gyfeillgar ac yn hael tuag at y tlawd a'i gartref yn llawn lletygarwch. Er hynny roedd yn gas gan rai pobl ef, yn enwedig y rhai hynny o gefndir Pabyddol. Pan ddaeth Mari Waedlyd i'r orsedd cafodd ei garcharu. Trwy ymbil taer brenin Denmarc fe'i rhyddhawyd, ond ni chafodd ei ailbenodi fel esgob. Cafodd fywoliaeth eglwys St Magnus, Llundain, ym 1564 ond rhoddodd heibio ei gyfrifoldebau oherwydd ei ddaliadau Anghydffurfiol. Bu farw ym 1569 a chladdwyd ei weddillion yn eglwys St Bartholomew by the Exchange. Symudwyd ei weddillion i St Magnus pan ddymchwelwyd St Bartholomew ym 1840.